**Atodiad A**

# BALANSAU HEB EU HAWLIO – GWEITHREDU'R TERFYN AMSER AR GRONFEYDD HEB EU HAWLIO

## Asesiad Cydraddoldeb

### Crynodeb o'r Polisi

1. Mae Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 a Rheolau Cronfeydd y Llys[1] yn rhoi'r awdurdod i'r Cyfrifydd Cyffredinol reoli arian yn y llys gan gynnwys Balansau heb eu Hawlio. Felly, mae gan y Cyfrifydd Cyffredinol/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ) y gallu i hwyluso'r broses o ildio cyllid ar ôl cyfnod segur y cytunwyd arno cyn belled â bod y newidiadau deddfwriaethol yn cael eu cymeradwyo.

2. Mae cronfeydd yn cael eu dal yn y cyfrif UB a reolir gan y Cyfrifydd Cyffredinol yn y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Felly, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder y gallu i hwyluso'r broses o ildio cyllid ar ôl cyfnod segur y cytunwyd arno. Dylid defnyddio cronfeydd segur er budd y cyhoedd ac ni ddylid caniatáu iddynt gronni llog am byth. Dyma'r egwyddor sy'n tanlinellu Bona Vacantia[2].

3. Oni wneir y newidiadau deddfwriaethol, ni all y Cyfrifydd Cyffredinol ildio'r arian yn gyfreithlon.

4. Fel rhan o'r Bil Cyllid a gyflwynwyd i'r Senedd ym mis Mawrth 2023, mae'r Llywodraeth wedi cynnwys diwygiad i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 i osod terfyn amser ar arian a dalwyd i Swyddfa Cronfeydd y Llys ar gyfer hawliadau sifil sy'n dal yn segur am 30 mlynedd neu fwy. Ar ôl 30 mlynedd, bydd yr hawl i hawlio yn cael ei dileu a bydd yr arian yn cael ei ddychwelyd i'r Trysorlys. Mae'r diwygiad i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982 yn mynd drwy gymeradwyaeth y Senedd a disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol erbyn haf 2023 i ddod yn gyfraith.

5. Bwriedir cyhoeddi diweddariad arall ar is-ddeddfwriaeth i Reol Cronfeydd y Llys 2011 yn ddiweddarach eleni (2023) er mwyn trosglwyddo cronfeydd UB segur i'r Trysorlys. Bydd y mesur arfaethedig yn ôl-weithredol h.y. bydd yr amser sydd wedi mynd heibio cyn dechrau yn cyfrif tuag at y cyfnod breinio 30 mlynedd.

6. Mae'r pwynt pan fydd cronfa'n mynd yn "segur" yn amrywio yn ôl y math o gyfrif, gyda gwiriadau ar waith i olrhain buddiolwyr sydd hefyd yn wahanol o un math o achos i'r llall. Er enghraifft:
    - **Cyfrifon plant:** Pan fydd arian yn cael ei freinio i'r Cyfrifydd Cyffredinol ar ran plentyn, mae gan y plentyn tan ei ben-blwydd yn 19 oed i hawlio taliad, ac ar ôl hynny bydd y gronfa'n cael ei symud i gyfrif UB. Mae'r drefn fanwl fel a ganlyn.

---

[1] Court Funds Rule 2011 (legislation.gov.uk), Part 5

[2] Mae 'Bona Vacantia' yn golygu nwyddau gwag a dyma'r enw a roddir i eiddo di-berchen, sy'n cael ei drosglwyddo i'r Goron yn ôl y gyfraith. Ffynhonnell - https://www.gov.uk/government/organisations/bona-vacantia

Anfonir llythyr cychwynnol yn gwahodd y plentyn i hawlio ei arian oddeutu pedair wythnos cyn i'r plentyn gyrraedd 18 oed yn ei wahodd i hawlio ei arian, ac os bydd y cleient yn methu â hawlio ei arian, anfonir llythyrau wedyn i'r cyfeiriad sydd ar y cyfrif dri mis ar ôl i'r plentyn gyrraedd 18 oed, ac eto 6 mis a 9 mis yn atgoffa'r plentyn i wneud cais am ei arian. Os nad ydyn nhw'n gwneud cais erbyn iddyn nhw gyrraedd 19 oed ac nad ydyn nhw wedi rhoi unrhyw resymau pam nad ydyn nhw wedi gwneud hynny, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i UB. Os nad oes cyfeiriad presennol, neu ar unrhyw adeg yn y broses, daw llythyr yn ôl fel "cyfeiriad anhysbys", gwneir ymholiadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i ddod o hyd i'r cyfeiriad presennol. Os bydd yr ymholiadau hynny'n llwyddiannus, bydd y broses yn dechrau drwy anfon llythyrau ymholi 3, 6 a 9 mis ar ôl y llythyr cychwynnol i'r cyfeiriad newydd yn gwahodd y plentyn i hawlio. Os na ellir dod o hyd i gyfeiriad, bydd y gronfa'n parhau'n "fyw" beth bynnag nes i'r plentyn gael ei ben-blwydd yn 19 oed, a bydd wedyn yn cael ei throsglwyddo i'r cyfrif UB.

- **Adneuon Statudol:** Yn yr achosion hyn, bydd yr adneuwr yn chwilio am y buddiolwr cyn adneuo, a dim ond os bydd y chwiliad hwnnw'n aflwyddiannus neu os bydd y cleient yn gwrthod ymgysylltu y daw'r arian i Swyddfa Cronfeydd y Llys. Dim ond os yw'r llys perthnasol yn fodlon bod yr adneuwr wedi cynnal chwiliadau digonol ac na ellir dod o hyd i'r buddiolwr neu os yw'n gwrthod ymgysylltu, y caiff arian ei adneuo. Ni chaiff unrhyw chwiliadau pellach eu cynnal gan Swyddfa Cronfeydd y Llys ar ôl eu derbyn, a chaiff yr arian ei drosglwyddo i gyfrif UB ar unwaith.
- **Achosion eraill:** Gyda phob math arall o gyfrif, bydd yr arian yn dod yn gymwys i'w drosglwyddo i'r cyfrif UB os na fu unrhyw drafodion, gan gynnwys gohebiaeth fel datganiadau sy'n cael eu hanfon nad ydynt yn cael eu dychwelyd fel rhai heb eu danfon, ar wahân i gredydu llog yn awtomatig, am 10 mlynedd. Ar y pwynt hwn, cynhelir chwiliadau drwy'r llys a chyfreithwyr sy'n ymwneud â'r achos i geisio olrhain buddiolwyr. Os bydd y chwiliadau hyn yn aflwyddiannus, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i'r cyfrif UB.

**Dyletswyddau Cydraddoldeb**

7. O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010[3], wrth arfer ei swyddogaethau, mae gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder ddyletswydd gyfreithiol barhaus (PSED) i roi sylw dyledus i'r angen i wneud y canlynol:

   - dileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth a mathau eraill o ymddygiad a waherddir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
   - hybu cyfle cyfartal rhwng grwpiau gwahanol o bobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a rhai nad ydynt; a
   - meithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau.

8. Mae angen ystyried talu sylw dyledus i Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng ngoleuni'r naw nodwedd warchodedig:

   - Hil
   - Ailbennu rhywedd
   - Cyfeiriadedd Rhywiol
   - Anabledd

[3] http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_20100015_en.pdf

- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Rhyw
- Crefydd neu Gred
- Oedran
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

**Ffynonellau Gwybodaeth**

9. Y brif ffynhonnell wybodaeth a ddefnyddir ar gyfer y dadansoddiad hwn yw'r data ar gyfrifon cleientiaid a gedwir yn Swyddfa Cronfeydd y Llys.

10. Rydym hefyd wedi ymgynghori â'r canlynol ar gyfer asesu effaith newid polisi ar brotocol Llys Hawliau Dynol Ewrop (ECHR):
    a. Barn gyfreithiol a dderbyniwyd gan y Cwnsler ar weithredu'r terfyn amser o 30 mlynedd.
    b. Roedd y Cyfreithiwr Cyffredinol wedi cytuno ar 10 Mawrth 2023 i'r cynnig y dylid trosglwyddo arian a dalwyd i'r llys i'r Gronfa Gyfunol os nad ydynt wedi'u hawlio am o leiaf 30 mlynedd a bod unrhyw amodau a bennwyd gan Reolau Cronfeydd y Llys wedi'u bodloni.

**Argaeledd data**

11. Rydym yn cael data bob mis ar nifer y cyfrifon i blant a buddiolwyr a warchodir, gyda rhagor o fanylion am y cyfrifon hyn yn cael eu darparu bob chwarter. Fodd bynnag, nid oes data ar nodweddion gwarchodedig o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cael ei geisio na'i gofnodi. Cyhoeddir nifer y cyfrifon cleientiaid yn ein Cyfrifon Blynyddol ar wefan www.gov.uk

**Ystyriaethau cydraddoldeb**

12. Ystyriaethau Erthygl 1, Protocol 1 (A1P1) y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:

*(1) Mae hawl gan bob unigolyn naturiol neu gyfreithiol i fwynhau ei eiddo'n heddychlon. Ni fydd neb yn cael ei amddifadu o'i eiddo ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn amodol ar yr amodau a ddarperir dan y gyfraith a gan egwyddorion cyffredinol cyfraith ryngwladol.*

*(2) Ni fydd y darpariaethau blaenorol, fodd bynnag, mewn unrhyw ffordd yn amharu ar hawl gwladwriaeth i orfodi unrhyw ddeddfau y mae'n ystyried eu bod yn angenrheidiol i reoli'r defnydd o eiddo yn unol â'r budd cyffredinol neu i sicrhau bod trethi neu gyfraniadau neu gosbau eraill yn cael eu talu.*

13. Ystyriaethau dyletswydd PSED yn unol â pharagraff 7 ac 8 uchod.

**Grwpiau yr effeithir arnynt**

14. Nid oes gennym ddata am nodweddion gwarchodedig canlynol unigolion:

- Hil
- Cyfeiriadedd Rhywiol
- Priodas a Phartneriaeth Sifil
- Rhyw
- Crefydd neu Gred
- Ailbennu rhywedd
- Beichiogrwydd a Mamolaeth

Felly, nid ydym yn gallu cynnal asesiad meintiol o'r effeithiau ar gydraddoldeb ar y grwpiau hyn, ond rydym yn croesawu ymatebion i'n cwestiynau sy'n ymwneud â chydraddoldeb.

**Asesu effaith PSED**

***Gwahaniaethu Uniongyrchol***

15. Ein hasesiad cychwynnol yw nad yw'r cynigion Balansau heb ei Hawlio yn gwahaniaethu'n uniongyrchol o fewn ystyr Deddf EA gan eu bod yr un mor berthnasol i bawb, beth bynnag fo'u nodweddion gwarchodedig; nid ydym yn credu y byddai'r cynigion yn arwain at drin pobl yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchodedig

***Gwahaniaethu Anuniongyrchol***

16. Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fydd polisi yr un mor berthnasol i bob unigolyn ond y byddai'n rhoi'r rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig dan anfantais benodol o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn ei rhannu.

17. Mae'n bosibl y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar rai o'r deiliaid cyfrifon plant, o'i gymharu â'n polisi presennol. Byddai unigolion dan anfantais os nad ydynt yn ymwybodol bod ganddynt Gyfrif CFO, ac os byddant yn darganfod yn ddiweddarach, ar ôl mwy na 30 mlynedd, bod ganddynt hawl i arian a gedwir yn y llys ar eu rhan.

18. Os nad yw'r unigolyn yn gwneud cais erbyn iddyn nhw gyrraedd 19 oed ac nad ydyn nhw wedi rhoi unrhyw resymau pam nad ydyn nhw wedi gwneud hynny, bydd y cyfrif yn cael ei drosglwyddo i UB. Yn unol â'r newid arfaethedig i'r polisi, bydd cronfa UB yn cael ei throsglwyddo i'r Trysorlys ar ôl 30 mlynedd neu fwy o segurdod a bydd unrhyw hawliadau a geir gan CFO ar ôl y cyfnod segur o 30 mlynedd yn cael eu gwrthod. Gall yr hawlydd ystyried hyn fel amddifadu neu reolaeth ar feddiannaeth gan y wladwriaeth, yn groes i ystyriaethau ECHR A1P1 (gweler paragraff 12 uchod).

19. Ein hasesiad ni yw bod Swyddfa Cronfeydd y Llys wedi cymryd camau rhesymol i ddod o hyd i ddeiliad cyfrif UB (gweler paragraff 6) ac mae'r cyfrif eisoes yn segur pan fydd arian yn cael ei symud i gyfrif UB. Mae'r terfyn amser o 30 mlynedd yn rhoi digon o amser i unigolyn wneud ei hawliad os yw wedi anghofio am y cyfrif ar sail gwybodaeth UB a rennir ar wefan gov.uk. Ein hasesiad ni yw bod cynnwys y terfynau amser hyn yn annhebygol o arwain at anfantais benodol i'r rheini sy'n dal cyfrifon plant gan mai ychydig iawn o annhegwch, os o gwbl, fydd yn deillio o'r diweddariad polisi arfaethedig oherwydd ni fydd y bobl y mae'n effeithio arnynt yn ymwybodol o'u hawliau neu'n hidio am eu hawliau.

20. Mae asesiadau annibynnol ar wahân a gwblhawyd gan Gwnsler, ein cyfreithiwr GTI a'n Cyfreithiwr Cyffredinol yn cytuno â'r asesiad uchod ac yn cadarnhau na fydd ymyrraeth, amddifadedd neu reolaeth yn torri'r ECHR A1P1 os gwneir hynny 'er budd y cyhoedd' neu 'i orfodi cyfreithiau o'r fath [fel y mae'r wladwriaeth] yn credu sy'n angenrheidiol i reoli'r defnydd o eiddo er budd y cyhoedd.

21. Gallai'r cynnig hwn gael effaith negyddol ar asedau sy'n eiddo i bobl nad oes ganddynt y gallu i reoli eu materion ariannol eu hunain, yn bennaf lle mae'r Llys Gwarchod wedi penodi rhywun arall i reoli eu materion, o'i gymharu â'n polisi presennol. Byddai unigolion dan anfantais pe na bai'r llys a'r cyfreithwyr dan sylw yn gallu olrhain buddiolwyr. Yn unol â'r newid arfaethedig i'r polisi, bydd cronfa UB yn cael ei throsglwyddo i'r Trysorlys ar ôl 30 mlynedd neu fwy o segurdod a bydd unrhyw hawliadau a geir gan CFO ar ôl y cyfnod segur o 30 mlynedd yn cael eu gwrthod.

    Ar ben hynny, rydym o'r farn petai unrhyw anfantais benodol i bobl â nodweddion gwarchodedig o'i gymharu â'r rheini nad ydynt yn rhannu'r nodwedd warchodedig o ganlyniad i'r cynigion Balansau heb eu Hawlio, byddai'r rhain yn ffordd gyfiawn a chymesur o gyflawni ein nod cyfreithlon o reoli cronfeydd balansau heb eu hawlio er budd y cyhoedd.

***Gwahaniaethu ar sail anabledd a dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol***

22. Byddwn yn parhau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer deiliaid cyfrifon sydd ag anableddau.

23. Yn unol ag arferion gorau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder, byddwn yn gwneud fersiynau hygyrch o'r dogfennau ymgynghori sydd ar gael ar-lein ar gyfer ymgyngoreion ag anableddau.

**Aflonyddu ac erledigaeth**

24. Nid ydym yn credu y bydd y polisi'n arwain at aflonyddu neu erledigaeth o fewn ystyr y Ddeddf Cydraddoldeb.

**Hyrwyddo cyfle cyfartal**

25. Ystyriwyd sut mae'r polisi Balansau Heb eu Hawlio yn effeithio ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.

26. Nid ydym yn credu y bydd y polisi hwn yn cael effaith negyddol ar y ddyletswydd i hybu cyfle cyfartal.

**Meithrin Perthynas Dda**

27. Nid ydym yn rhagweld y bydd y polisi'n cael effaith benodol ar fynd i'r afael â rhagfarn rhwng y rheini sy'n rhannu nodwedd warchodedig ac nad ydynt yn rhannu nodwedd warchodedig.

28. Byddwn yn parhau i ystyried yr effeithiau ar gydraddoldeb mewn perthynas â gweithredu'r polisïau hyn ac yn diweddaru ein datganiad cydraddoldeb yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad.